



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1

Mynediad





Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1

Mynediad





Llawlyfr Cwrs Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1

Cwrs Lefel Mynediad

gyda diolch i CWLWM am eu cyngor a'u cydweithrediad wrth baratoi'r cwrs hwn.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig canllawiau i diwtoriaid sy'n dysgu'r **Cwrs Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1** – lefel Mynediad. Nid yw'n gwrs Mynediad llawn ond ei nod ydy galluogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n meddu ar rywfaint o Gymraeg, i gyflwyno patrymau Cymraeg a rhoi arweiniad cywir yn y Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd gyda phlant dan 5.

Dylid nodi o'r cychwyn cyntaf bod y cwrs hwn wedi'i lunio ar gyfer cynulleidfa benodol sef **gofalwyr plant cyn ysgol** gyda'r nod y bydd y sawl sy'n ei ddilyn yn gallu dychwelyd i'r gweithle i ddefnyddio'r iaith yn hyderus.



CEFNDIR

Comisiynwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i awduro'r cwrs hwn ar sail gwaith ymchwil a wnaed i'r ddarpariaeth bresennol gan gwmni Sbectrwm.

Canfu'r gwaith ymchwil hwnnw yr angen am ddarpariaeth hyblyg yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth y gallai'r ymarferwyr gael mynediad ati'n fwy annibynnol.

Mae'r tîm awduro yn cydnabod bod y sector gofal yn gwbl allweddol o ran creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu sgiliau a hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Mae ymchwil yn dangos bod cynifer ag 11% o'r holl siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r iaith mewn lleoliad cyn ysgol gyda 50% o'r siaradwyr hynny'n rhugl. Mae hyn yn fwy na'r ganran sy'n rhugl ymhlith y rhai sydd wedi dysgu'r iaith mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu rywle arall heblaw am y cartref. Mae hyn yn tanlinellu pa mor dyngedfennol yw cyfraniad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn y sector gofal cyn ysgol i gyrraedd nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn atodol i'r uchod, mae'r cwrs hwn hefyd yn cydnabod bod ystod eang i oedran y plant sy'n mynychu lleoliadau Clybiau Chwarae Cymru. Mae natur yr ymwneud â'r plant yn fwy anffurfiol a llai strwythuredig. Serch hyn, mae defnyddio'r patrymau cywir a modelu ieithyddol mewn lleoliadau o'r math yn cynnig cefnogaeth allweddol ac yn cyfoethogi'r broses o ddysgu a defnyddio iaith.



CYNNWYS

Mae'r cwrs wedi ei gynllunio ar ffurf 10 uned, i'w cyflwyno mewn sesiynau **wyneb yn wyneb** dros isafswm o 20 o oriau dysgu.

Cyflwynir patrymau iaith defnyddiol trwy gyfrwng cyfres o unedau sydd wedi eu seilio ar sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'r lleoliadau. Ceir pwyslais cryf ar bethau sy'n greiddiol i waith yr ymarferwyr fel gofyn cwestiynau, rhoi cyfarwyddiadau a gorchmynion, ynghyd â ffocws ar weithgareddau craidd fel goruchwyllo chwarae gemau a gwahanol weithgareddau.

Cynlluniwyd y cwrs gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau llafar yr ymarferwyr a hynny'n adlewyrchu natur eu gwaith gyda phlant. Modelir ffurfiau llafar sy'n gydnaws â'r ffurfiau a gyflwynir yn y sector addysgol er mwyn sicrhau cysondeb i'r plant. Lle bo amrywiaethau rhwng yr iaith lafar a ddefnyddir yn y de a'r gogledd, maent wedi eu hamlygu'n glir yn yr unedau.

Mae strwythur pob uned fel a ganlyn:

- Cyfres o **ddriliau** sy'n cyflwyno prif batrymau'r uned

Mae'r driliau wedi'u cynnwys er mwyn cyflwyno'r patrymau newydd yn y dosbarth. Mae'r adran **Drilio'r Patrymau Newydd** isod yn cynnig awgrymiadau pellach ar ddulliau drilio.

- **Sgyrsiau** er mwyn ymarfer y patrymau a gyflwynir wedi eu cyd-destunoli
Mae sgyrsiau wedi'u cynnwys lle bo hynny'n berthnasol er mwyn gosod y patrymau newydd a addysgir mewn cyd-destunau enghreifftiol sy'n berthnasol i waith yr ymarferwyr. Yn ogystal, gall yr ymarferwyr addasu llawer o'r deialogau hyn i'w defnyddio wrth chwarae rôl gyda'r plant yn eu gofal. Mae'r adran **Defnyddio'r Sgyrsiau** isod yn cynnig awgrymiadau cyffredinol i'w defnyddio.

- **Rhestr eirfa**

Mae'r eirfa sydd wedi'i chynnwys a'i defnyddio yn y broses o addysgu'r uned wedi'i rhestru ar ddiwedd pob uned. Rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw eiriau sy'n ymddangos yn yr uned hefyd yn y rhestr eirfa. Gall hyn olygu ailadrodd rhwng unedau, ond gobeithir ei fod yn fwy hwylus i'r defnyddiwr. Mae'r geiriau hyn wedi eu didoli fesul cenedl yr enw ynghyd â'u cyfieithiadau Saesneg.



- **Esboniadau gramadegol**

Ceir nodiadau gramadeg ar ddiwedd pob uned er mwyn ceisio esbonio mor syml â phosibl pam mae pethau'n digwydd. Pwrpas cynnwys y nodiadau hyn ydy cynnig cyfle i'r ymarferwyr weld beth yw'r rhesymau dros ambell newid neu batrwm ac ymestyn eu gwybodaeth ehangach am y Gymraeg. Eu nod ydy meithrin y sgiliau trosglwyddadwy hynny gan alluogi ymarferwyr i gymhwyso'r wybodaeth i batrymau eraill wrth iddynt ymestyn eu gafael ar yr iaith.

- **Gweithgareddau**

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynnwys ym mhob uned fel dull o gadarnhau'r patrymau sydd wedi'u dysgu yn ystod yr uned honno. Fel arfer, bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cwblhau o fewn sefyllfa ddosbarth ond mae modd eu cyflwyno hefyd fel tasgau i'w cwblhau'n annibynnol. Gweler yr adran **Cyflwyno'r Gweithgareddau** isod am fanylion pellach ar weinyddu'r gweithgareddau.

Noder fodd bynnag, na ddylai dull strwythuro'r unedau gael ei ddefnyddio fel fframwaith cyfyng ar gyfer cynllunio'r sesiynau dysgu. Gallai tiwtor addasu trefn yr unedau yn unol â gofynion yr ymarferwyr, a cheir awgrymiadau pellach isod ar ddulliau o gyflwyno'r elfennau gwahanol yn yr uned.

Dysgu ar-lein annibynnol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cwrs, bwriedir i'r adnoddau a'r gweithgareddau atodol a welir ar wefan *Dysgu Cymraeg* atgyfnerthu'r dysgu wyneb yn wyneb a galluogi ymarferwyr i weithio'n fwy annibynnol. Gwelir yno amrywiaeth o weithgareddau fesul uned cyfatebol yn meithrin dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r patrymau a'r eirfa a gyflwynir.

Ceir gweithgareddau sy'n meithrin sgiliau ysgrifennu yn yr unedau ac yn y gweithgareddau atodol, ond fel y nodwyd eisoes, prif ffocws y cwrs ydy meithrin sgiliau llafar.



AWGRYMIADAU I DIWTORIAID SY’N CYFLWYNO’R CWRS

Mae’r adran hon yn cynnwys rhai awgrymiadau i gyflwyno’r cwrs yn y sesiynau wyneb yn wyneb.

Drilio’r Patrymau Newydd

Cyn dechrau’r dril yn y dosbarth:

- 1) dylid ymglyfarwyddo â **ffurfiau ac ynganiad** patrymau’r cwrs.
- 2) gellid gosod **nod y wers**, sef dweud beth fydd yn cael ei wneud yn y driliau. I ddechrau, dylid esbonio’r nod mewn ffordd syml ac yn ddwyieithog er mwyn gosod awyrgylch Cymraeg y bydd yr ymarferwyr yn ymdoddi’n raddol ac yn naturiol iddo, e.e. byddai’n well dweud:-

‘Heddiw, ’dyn ni’n mynd i ddysgu sut i ddweud ble mae pethau. Byddwn ni’n dysgu sut i ddweud pethau fel – ‘Mae’r creision ar y bwrdd, yn y cwpwrdd, ar bwys y ddiod.’

‘Today we’re going to learn how to say where things are. We will be learning how to say things like – ‘The crisps are on the table, in the cupboard, by the drink.’

yn hytrach na dweud:-

‘Heddiw ’dyn i’n mynd i ddysgu sut i ddefnyddio’r arddodiaid.’
‘Today we’re going to learn how to use prepositions.’

Serch hyn, mae’n bosibl y gallai’r ymarferwyr ddangos diddordeb mewn rhai agweddau gramadegol rywbyrd yn ystod y wers. Bydd angen sicrhau eich bod fel tiwtoriaid yn gallu esbonio’r ramadeg yn glir ac yn gywir os oes angen.



Bydd eisiau addasu'r drilio i'r patrymau a ddysgir, ond yn gyffredinol, gellid dilyn y camau hyn:-

- i. Esbonio ystyr y brawddegau i'w drilio. Dylid esbonio bod ffurfiau llafar yn cael eu cyflwyno, a'r rhesymau dros hynny. Yna, dylid annog y dosbarth i gau eu ffeiliau.

Y rheswm dros hyn yw:-

- a) Bydd pawb yn edrych arnoch chi, y bwrdd gwyn ac aelodau eraill y dosbarth yn lle bod eu trwynau i lawr yn y llyfr.
- b) Cânt gyfle i ddweud y geiriau newydd cyn eu gweld. Gobeithir y bydd hyn yn osgoi cam-ynganu trwy ddarllen yn anghywir.

Gellir pwysleisio y bydd popeth yn cael ei ysgrifennu ar y bwrdd gwyn ac y cânt edrych ar eu nodiadau cyn dechrau'r sgwrs.

- ii. Annog y dosbarth i gyd i'ch dynwared mewn corws dair neu bedair gwaith.
- iii. Dewis dysgwyr unigol ar hap i'ch dynwared, a'r tiwtor i gywiro/gadarnhau ymdrech yr unigolyn drwy ailadrodd yr un frawddeg:

Tiwtor:	Mae'r llyfr o dan y bwrdd.
Dysgwr:	<i>Mae'r llyfr o dan y bwrdd.</i>
Tiwtor:	Mae'r llyfr o dan y bwrdd.

- iv. Disodli un elfen o'r frawddeg, a defnyddio honno fel sbardun i unigolion gynhyrchu brawddeg e.e.

Tiwtor:	Sudd oren.
Dysgwr:	<i>Wyt ti eisiau sudd oren?</i>
Tiwtor:	Sudd afal.
Dysgwr:	<i>Wyt ti eisiau sudd afal?</i> a.y.y.b.

- v. Ar ôl gwneud yr holl floc, dylid ysgrifennu'r dril ar y bwrdd gwyn (fel mae'n ymddangos yn yr uned) drwy ofyn i bawb beth maent yn ei gofio o'r brawddegau.



- vi. Rhannu pawb yn barau er mwyn ymarfer y brawddegau, gofyn cwestiynau a newid y darnau sydd wedi'u tanlinellu i'w hateb, e.e.

Ble mae'r llyfr?

Mae llyfr ar y bwrdd.

Mae llyfr dan y gadair.

Mae llyfr ar y silff.

- vii. Cyfieithu - tiwtor yn dweud y Saesneg, a'r dosbarth i roi'r Gymraeg ar lafar, ar y bwrdd neu ar fyrddau gwyn bach. Wedyn, gweithio mewn paru neu fel grŵp gan gynnal sesiwn dysgu mini meicro os oes modd.
- viii. Dileu'r patrymau o'r bwrdd gwyn a'u defnyddio ar lafar yn y dosbarth, gyda'r tiwtor yn gofyn ble mae gwahanol bethau yn y dosbarth. Parau i wneud yr un peth wedyn cyn agor y llyfrau i edrych ar y sgysiau.

Dylid amrywio'r drilio yn ôl yr hyn a gyflwynir. Yn y dril uchod, er enghraifft, gellid cyflwyno'r arddodiaid i gyd gydag un neu ddau enw (e.e. y bag/y gadair) i ddechrau, neu hyd yn oed gyflwyno'r arddodiaid yn unig, gan ddefnyddio bag neu gadair yn yr ystafell cyn eu drilio mewn brawddegau.

Gellir rhoi geiriau newydd nad ydynt yn yr uned os bydd dysgwyr yn gofyn amdanynt a'u cynnwys yn y drilio. Bydd hyn yn sicrhau bod yr uned yn fwy perthnasol i unigolion yn y dosbarth. Ond dylid bob tro gychwyn dril gyda geirfa gyfarwydd er mwyn hoelio'r sylw ar y patrwm a gyflwynir.

Mae'n bwysig cyflwyno'r driliau'n gyflym ac yn fywiog heb dynnu sylw at gamgymeriadau unigolion.

Defnyddio'r Sgysiau

Dyma'r camau y gellir eu dilyn ar gyfer cyflwyno'r sgysiau:-

1. Y tiwtor yn darllen y sgws yn uchel - pawb i wrando er mwyn cael syniad cyffredinol o'r hyn sy'n digwydd. Byddai'n well gallu chwarae'r deialogau wedi'u recordio, os oes modd.



2. Y tiwtor yn darllen y sgwrs fesul brawddeg/llinell a'r dosbarth yn ailadrodd mewn corws.
3. Y tiwtor i roi cyfieithiadau Saesneg fesul llinell/brawddeg o'r sgwrs ar hap - pawb i ddod o hyd i'r llinell/frawddeg gyfatebol o'r sgwrs a'i dweud yn Gymraeg. Y tiwtor i fynd dros ystyr popeth ar y diwedd ac ateb unrhyw gwestiynau.
4. Y tiwtor yn cymryd rhan A, a'r dosbarth rhan B ac fel arall.
5. Hanner y dosbarth i gymryd rhan A. Yr hanner arall i gymryd rhan B ac fel arall.
6. Ymarfer y sgwrs mewn parau, gan gyfnewid rôl a phartner ar ôl ychydig.
7. Ceisio cofio'r sgwrs, os na fydd hi'n rhy hir, a'i pherfformio heb edrych ar y daflen.
8. Y tiwtor i danlinellu rhai geiriau yn y sgwrs i'w newid. Nid oes geiriau wedi'u tanlinellu yn unedau'r cwrs er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i'r tiwtoriaid a'r ymarferwyr ddewis y geiriau eu hunain.

Gweithgareddau'r Cwrs

Ceir amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o'r cwrs hwn. Mae pob uned yn cynnwys hyd at dri gweithgaredd i'w cwblhau fel rhan o'r broses o gyflwyno'r uned. Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau posibl, yn seiliedig ar y rhestri geirfa. Bydd angen rhifo'r geiriau yn y rhestri.

- Partner 1 i daflu dis (neu ddau ddis), neu godi cerdyn chwarae; Partner 2 i ddweud y gair sy'n cyfateb i'r rhif yn Saesneg neu Gymraeg a phartner i roi'r gair yn yr iaith arall.
- Fel uchod ond rhaid cynhyrchu brawddeg i gynnwys y gair.
- Fel uchod ond rhaid gofyn cwestiwn i gynnwys y gair ac yna Partner 1 i ateb y cwestiwn.

Er bod cyfarwyddyd wedi ei gynnwys gyda'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, dylai tiwtoriaid ac ymarferwyr feddwl am ddulliau amrywiol o ddefnyddio'r adnoddau. Mae hyn hefyd yn golygu bod modd defnyddio'r gweithgareddau'n wahaniaethol. Er enghraifft, gyda'r gemau trac, gellid derbyn atebion un gair ar gyfer rhai tasgau, ond gellid gofyn am atebion llawn, sgysiau neu drafodaethau ar gyfer yr un gêm drac ar adegau eraill.



Mae cael amrywiaeth o ddisiau rhif, rhagenwau, lliw, siapiau ac ati yn y dosbarth yn ddefnyddiol. Felly hefyd gardiau chwarae ac amrywiaeth o gardiau fflach megis Cardiau Fflach CBAC a Chynllun Colegau Cymru.

Bydd rhai gweithgareddau'n perthyn i ddriliau penodol, lle bo eraill yn canolbwyntio ar gynnwys unedau cyfan. Eto, mae hyn yn cynnig dewis ac elfen o hyblygrwydd i'r tiwtor wrth ddysgu'r cwrs.

Yn olaf, mae cynnal sesiynau mini meicro yn ymarfer da i'r ymarferwyr ar gyfer cyflwyno patrymau ieithyddol mewn cyd-destun anffurfiol sy'n eu paratoi ar gyfer sefyllfa yn eu gweithleoedd. Yn syml, mewn grwpiau o 3 neu 4, mae pob aelod o'r grŵp yn chwarae rôl yr 'arweinydd', gan gyflwyno gweithgaredd i'r dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. gemau dis sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r patrymau iaith sy'n cael eu dysgu ar y pryd. Mae'n broses effeithiol a pherthnasol o gadarnhau'r hyn sydd wedi'i ddysgu ac ar yr un pryd y mae'n ennyn hyder yr ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar mewn cyd-destun cyfarwydd.



UNED 1 Cyflwyniad *Introduction*

Dril 1: *Initial introductions*

Helo, Lisa dw i.

Sut mae?	Iawn, diolch.
Sut wyt ti?	Da iawn, diolch.
Sut hwyl?	Gweddol.

Sut dych chi?	Sut dach chi?	Ofnadwy!
Ble wyt ti'n byw?	Lle wyt ti'n byw?	Arberth.
Ble dych chi'n byw?	Lle dach chi'n byw?	Wrecsam.

Y Llafariaid *Vowels*

a, e, i, o, u, w, y

Sgwrs 1

Arweinydd / Leader:	Helo! Lauren dw i!
Jessie:	Helo! Jessie dw i – mam Jac.
Arweinydd / Leader:	Sut wyt ti? Jessie?
Jessie:	Da iawn, diolch!





Ynganu: Yr Wyddor

Pronunciation: The Alphabet

Llythyren	Cymraeg	Saesneg
a	tân/ <u>tan</u>	as in <u>h</u> ard/ <u>ba</u> t
b	<u>b</u> ola	as in <u>ba</u> t
c	<u>c</u> ar	as in <u>c</u> ar, never as <u>C</u> yril
*ch	co <u>ch</u>	as in Scottish lo <u>ch</u>
d	<u>d</u> ant	as in <u>d</u> entist
*dd	<u>dd</u> oe	as in <u>th</u> en, never as <u>th</u> ing
e	<u>h</u> en/ <u>pe</u> rt	long open e sound - <u>ha</u> ir/ <u>the</u> n
f	<u>f</u> i/ <u>a</u> fal	as in <u>v</u> ast, never as <u>o</u> ff
*ff	<u>ff</u> ôn	as in <u>ph</u> one
g	<u>g</u> an	as in <u>g</u> ut, never as <u>G</u> eorge
*ng	dr <u>in</u> go	as in bli <u>ng</u>
h	<u>h</u> apus	as in <u>h</u> appy
i	<u>ci</u> / <u>bi</u> n	<u>ke</u> ep/ <u>bi</u> n, never as sli <u>m</u> e
j	ga <u>re</u> j	as in <u>ja</u> m
l	<u>l</u> an	as in <u>la</u> st
*ll	<u>ll</u> awn	no English equivalent - place tongue behind teeth and blow
m	<u>m</u> ap	as in <u>ma</u> p
n	<u>n</u> awr	as in <u>ni</u> p
o	<u>do</u> / <u>ll</u> on	as in <u>ph</u> one / ora <u>n</u> ge
p	<u>p</u> eth	as in <u>po</u> t
*ph	<u>ph</u> en	as in <u>ph</u> ysics
r	<u>ca</u> r	rolled more than English
*rh	<u>rh</u> if	breathy 'r', unvoiced
s	<u>s</u> garff	as in <u>se</u> t, not <u>i</u> s
t	<u>t</u> i	as in <u>to</u> p
*th	be <u>th</u>	as in <u>th</u> ing, never as <u>th</u> en
u	<u>un</u> / <u>tu</u> n	as in <u>be</u> en / <u>ki</u> ss never as in <u>ru</u> mp
w	d <u>ŵ</u> r/ <u>jw</u> g	as in <u>do</u> / <u>fu</u> ll
y	<u>d</u> yn/ <u>c</u> yn/ <u>yn</u>	as in <u>de</u> an/ <u>ti</u> n/ <u>du</u> mp

*Un llythyren (*letter*) ydy: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



Y Deuseiniaid *Two vowel sounds*

ai ae au	gwaith, cais, Owain, pennaeth, gwasanaeth(au), cau, adnoddau, gwyliau, dechrau, adrannau	Similar to English <i>eye</i>
aw	awr, caws, cawl, dawn	Similar to English <i>ow</i> in <i>cow</i>
ei eu ey	eich, gweithio, cyfeiriad, gweithgaredd, ceisiadau, teithio, Eurwen, Llangyndeyrn	Similar to English <i>say</i>
oi oe ou	crynhoi, cloi, troi, rhoi, oed, oer, ddoe, cyffrous	Similar to English <i>oy</i> in <i>boy</i>
ow	Owen, clowch, trowch, rhowch	Similar to English <i>ow</i> in <i>own</i>
wy	swyddfa, cwyn, hwyr, hwyl, dwy, bwyd, rhwydd, gorffwys, egwyl, gwyliau	This sound doesn't occur in English

Pwyslais! *Stress! / Emphasis*

absENNol
eistEDDwch
proffesiYNol
ystAFell



Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1








Rhowch gynnig arni!

Give it a go!

partner	angel	Euros	sail
cell	faint	pump	murmur
union	paid	dawn	dull

Lliwiau

Colours



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol



Cymraeg Gwaith
Work Welsh



Geirfa *Vocabulary*

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
ystafell/oedd	room/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
lliw/iau	colour/s

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
byw	to live
eisteddwch	sit (command form)

Ansoddeiriau *Adjectives*

Cymraeg	Saesneg
absennol	absent
brown	brown
coch	red
da	good
du	black
fioled	violet
glas	blue
gweddol	ok
gwyn	white
gwyrdd	green
hardd	pretty
llwyd	grey
melyn	yellow
ofnadwy	awful
oren	orange
pinc	pink



Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1

porffor	purple
proffesiynol	professional

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
Dyma	Here is



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol



Cymraeg Gwaith
Work Welsh



Gramadeg *Grammar*

North and South Wales dialects

In this course, the South Walian forms are written to the left of North Walian forms,

e.g. **Ble dych chi'n byw? Lle dach chi'n byw? Wrecsam.**

Tutors should draw attention to these differences when the course is taught. Both forms can be heard being used in different locations across Wales and it is beneficial that learners can differentiate between them.

Pronunciation

Welsh pronunciation is generally quite consistent.

There are 7 vowels:

a e i o u y

Y has 2 sounds, see **Ynys, Aberystwyth**.

A, I, O + Y are also useful words! (meaning 'and', 'to', 'from', 'the').

S also has 2 sounds – normally a hiss ('**Sut**') but combined with 'i' is a '**sh**' sound (e.g. **Siân**)

Stress / Emphasis

The stress on a Welsh word is almost always on the last syllable but one.

iawn

You will see in the vocabulary that '**iawn**' can mean both 'OK' and 'very'. On its own, it means 'OK', e.g. **Sut dych chi? iawn.**

However, when used after an adjective its meaning is 'very': '**Da iawn**' (Very good).





Ti + Chi

'Ti' + 'Chi' are similar to *Tu + Vous* in French (and many other languages). 'Ti' is always singular and 'Chi' can be either formal singular or plural.





UNED 2

Dril 1: *Basic greetings*

Bore da.
Bore da, blant.
Croeso!
Prynhawn da, fechgyn.
Hwyl fawr, ffrindiau.

Dril 2: *Who are you?*

Pwy wyt ti?

Siobhan dw i.

Pwy ydy hi?

Cady ydy hi.

Pwy ydy e?

Pwy ydy o?

Arun ydy e.

Ryan ydy o.

Pwy dych chi?

Pwy dach chi?

Ryan dw i, a Sophie dw i.

Pwy 'dyn nhw?

Siobhan a Cady 'dyn nhw.

Sgwrs 1

Arweinydd / Leader: Bore da. Croeso!

Cady: Bore da.

Arweinydd / Leader: Pwy wyt ti?

Cady: Cady dw i.

Arweinydd / Leader: Sut wyt ti?

Cady: Da iawn, diolch.



Dril 3: *Days of the week*

Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn
Dydd Sul

Mae hi'n ddydd Llun heddiw.

Dril 4: *The Weather*

Mae hi'n	sych	heddiw.
	braf	
	stormus	
	heulog	
	dwym / boeth	
	wlyb	
	wyntog	
	gymylog	
	bwrw glaw	
	bwrw eira	

Sgwrs 2

Arweinydd / Leader: Bore da, blant!

Plant: Bore da.

Arweinydd / Leader: Mae hi'n ddydd Mawrth heddiw. Mae hi'n heulog. Hwre!



Dril 5: *Simple commands*

Unigol *Singular*

Dere i mewn / Tyrd i mewn.
Tynna dy got.
Eistedda ar y sofffa.
Edrycha ar y wal.
Chwaraea gyda'r / efo'r teganau.

Lluosog *Plural*

Dewch i mewn.
Tynnwch eich cotiau.
Eisteddwch ar y sofffa.
Edrychwch ar y wal.
Chwaraewch gyda'r / efo'r teganau.

Sgwrs 3

Arweinydd / Leader: Bore da, blant!

Plant: Bore da.

Arweinydd / Leader: Tynna dy got, Ryan.

Eisteddwch ar y sofffa, blant. Mae hi'n bwrw glaw heddiw.

Ych a fi!



Geirfa *Vocabulary*

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
cot/iau	coat/s
tegan/au	toy/s
merch/ed	girl/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
bachgen/bechgyn	boy/s
car/ceir	car/s
eira	snow
glaw	rain
plentyn/plant	child/ren
soffa	sofa
wal/waliau	wall/s

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
bwrw eira	to snow
bwrw glaw	to rain

Ansoddeiriau *Adjectives*

Cymraeg	Saesneg
braf	fine
cymylog	cloudy
gwlyb	wet
gwyntog	windy
heulog	sunny
poeth	warm



Cymraeg Cynnar: Sector Chwarae 1

stormus	stormy
sych	dry
twym	warm

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
Hwyl fawr	Goodbye
pawb	everyone
Prynhawn da	Good afternoon
Pwy?	Who?



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

 Cymraeg Gwaith
Work Welsh



Gramadeg *Grammar*

Chi / Ti *you*

Remember, there are two ways of saying 'you' in Welsh – **ti** and **chi**

'**Chi**' is used when speaking to a group of people (plural), to someone you don't know or someone to whom you want to show respect. We also use '**chi**' with people who are older than we are.

'**Ti**' is used when speaking to a friend, or a child, or to someone whom you are very familiar with, e.g.

Pwy wyt ti?

Siân dw i.

Pwy dych chi?

Pwy dach chi?

Mam Siân dw i.

Fe / Fo *him*

In south Wales, '**fe**' is used for 'him'.

In north Wales, '**fo**' is used for 'him'.

Answering questions

Remember:

'**you**' in the question = '**I**' or '**we**' in the answer

'**I**' in the question = '**you**' in the answer

'**we**' in the question = '**we**' or '**you**' in the answer, e.g.

Pwy wyt ti?

Tom **dw** i. (*I am Tom*)

Greetings

A noun following a greeting will take a **treigladd meddal**/soft mutation, e.g.

Bore da, blant.

Prynhawn da, ferched.



Y Treigladd Meddal *The Soft Mutation*

Original letter	Treigladd meddal	Enghreifftiau	
t	d	teledu	Dyma deledu.
c	g	car	Dyma gar.
p	b	pensil	Dyma bensil.
d	dd	desg	Dyma ddesg.
g	-	gardd	Dyma ardd.
b	f	balŵn	Dyma falŵn.
ll	l	llyfr	Dyma lyfr.
m	f	merch	Dyma ferch.
rh	r	rhwyd	Dyma rwyd.

Yr Amser Presennol *The Present Tense*

It

There is no single word for 'it' in Welsh, we either use 'e/o/fel/fo' or 'hi'. For the weather and time 'hi' is used for 'it', e.g.

Mae hi ... *It is ...*

Word order

In English – '*It is Friday*' – the '*it*' comes first (unless you change the sentence to a question – Is it?)

In Welsh, the normal word order is verb first:

Mae hi'n ddydd Gwener.



'**Mae**' comes from the verb '**bod**' '*to be*', so it will require an '**yn**' or '**n**' to be used with it to join it to the rest of the sentence. This causes a **treigladau meddal** / *soft mutation* to nouns and adjectives but not to verbs, e.g.

Mae hi'n bwrw glaw.

Most of the words used to describe the weather are adjectives, so they mutate, e.g.

cymylog	Mae hi'n gymylog.
twym	Mae hi'n dwym.

'**Braf**' is an exception to the rule. It does not mutate:

e.g. Mae hi'n braf. (Think of the Costa Brava!)





UNED 3

Dril 1: *How are you?*

Sut wyt ti heddiw?	Wedi blino / Dw i wedi blino.
	Hapus / Dw i'n hapus.
	Trist / Dw i'n drist.
	Ofnus / Dw i'n ofnus.
	Oer / Dw i'n oer.

Dril 2: *Are you ...?*

Wyt ti?	<i>Are you? (singular)</i>
Dych chi? / Dach chi?	<i>Are you? (plural)</i>

Nima, wyt ti'n hapus?	Ydw, diolch.
Harry, wyt ti'n drist?	Ydw / Nac ydw.
Nima a Harry, dych / dach chi'n iawn?	Ydyn / Nac ydyn.
Nima a Harry, dych / dach chi'n barod?	Ydyn / Nac ydyn.

Bendigedig, Nima!
Gwych, Harry!
Da iawn ti, Arun!

Dw i'n hapus hefyd!

Sgwrs 1

Arweinydd / Leader: Prynhawn da, bawb!
Plant: Prynhawn da.
Arweinydd / Leader: Dewch i mewn. Tynnwch eich cotiau. Sut wyt ti heddiw Shannon?
Shannon: Iawn!
Arweinydd / Leader: Liam, wyt ti'n iawn hefyd?
Liam: Ydw, diolch.
Arweinydd / Leader: Bendigedig! Diolch i ti hefyd, Liam. Dewch i gael snac.



Dril 3: *Useful verb nouns*

Cerdded
Chwarae
Dawnsio
Dringo
Edrych
Gwrando
Neidio
Rhedeg
Sgipio
Siarad
Symud
Taflu

Dril 4: *Commands*

Unigol *Singular*

Cerdda
Chwaraea
Darllena
Dere / Tyrd
Edrycha ar y llyfr
Eistedda ar y sofa
Gwrandda ar Miss Pugh

Lluosog *Plural*

Cerddwch
Chwaraewch
Darllenwch
Dewch
Edrychwch
Eisteddwch
Gwrandewch

Dril 5: *No ...!*

Dim rhedeg
 gweiddi
 symud
 cnoi





Dril 6: Don't ...!

Unigol *Singular*

Paid rhedeg
 dringo

Lluosog *Plural*

Peidiwch rhedeg
 dringo

Dril 7: General Commands

Cer i'r sofffa, Seren. Dos i'r cefn rŵan, Luca. Ewch allan, bawb.
Dere i'r ffrynt nawr, Jack. Tyrd i'r bwrdd, Sanjay. Dewch yma, bawb.

Bydd yn dawl.

Byddwch yn blant da.
Byddwch yn ofalus.

Sgwrs 2

Arweinydd / Leader: Rŵan, bawb. Dach chi'n barod?

Plant: Ydan.

Arweinydd / Leader: Eisteddwch. Dim rhedeg. Byddwch yn ofalus. Mae hi'n amser snac a diod.



Geirfa *Vocabulary*

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
diod/ydd	drink/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
amser	time
bwrdd/byrddau	table/s
cefn/au	back/s
carped/i	carpet/s
ffrynt	front
llawr/lloriau	floor/s
snac	snack
soffa	sofa

Berfau *Verbs*

Cymraeg	Saesneg
cerdded	to walk
chwarae	to play
dawnsio	to dance
dringo	to climb
edrych	to look
eistedd	to sit
gweiddi	to shout
gwrando (ar)	to listen (to)
neidio	to jump
rhedeg	to run
sgipio	to skip
symud	to move
siarad	to talk
tacluso	to tidy up
taflu	to throw



Ansoddeiriau

Adjectives

Cymraeg	Saesneg
bendigedig	wonderful
gwydch	excellent
iawn	fine/ok
ofnus	scared
trist	sad

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
allan	out
hefyd	also / too
nawr	now (in S Wales)
parod / yn barod	ready
rŵan	now (in N Wales)
wedi blino	tired
yn dawel	quietly
yn ofalus	carefully



Gramadeg *Grammar*

Sut?

'Sut?' + verb, means 'how', e.g.

Sut wyt ti?

Sut mae'r plant?

yn + adjective

If 'yn' is followed by an adjective it causes a **treigladd meddal** / *soft mutation*, e.g.

yn drist

yn ddiflas

But remember, 'yn' does not cause a **treigladd meddal** / *soft mutation* when it comes in front of a verb, e.g.

yn teimlo

yn canu

Ydw / Nac ydw

There are different ways of answering 'yes' and 'no' in Welsh. These are the answers that you should encourage children to use when you ask a question beginning with 'Wyt ti?'

Dw i / Rydw i

You will come across both of these forms. Both are acceptable but '**Dw i**' is an abbreviation of '**Rydw i**' and the common form in spoken Welsh. However, at such an early age, children will be limited in their use of language and these will be more often than not omitted with just the adjective, e.g. '**hapus**' forming an acceptable answer.

lawn

'**lawn**' means 'very' and unlike English, it comes **after** the adjective, e.g.

yn hapus lawn

yn gyffrous lawn.



UNED 4

Dril 1: *Do you like ...?*

Wyt ti'n hoffi / licio ffrwythau?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti'n hoffi / licio afalau?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti'n hoffi / licio grawnfwyd?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti'n hoffi / licio sudd?	Ydw / Nac ydw.

Dych chi'n hoffi ffrwythau? Dach chi'n licio ffrwythau? Ydyn / Nac ydyn. Ydan / Nac ydan.

Dril 2: *Do you want ...?*

Wyt ti eisiau afal? / Wyt ti isio afal?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti eisiau banana? / Wyt ti isio banana?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti eisiau snac? / Wyt ti isio snac?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti eisiau mynd i'r tŷ bach?	Ydw / Nac ydw.
Wyt ti eisiau golchi dy ddwylo?	Ydw / Nac ydw.

Dych chi eisiau diod? Dach chi isio diod? Ydyn / Nac ydyn. Ydan / Nac ydan.

Sgwrs 1

Arweinydd / Leader: Mae'n amser snac. Wyt ti'n hoffi ffrwythau, Jac?

Jac: Ydw.

Arweinydd / Leader: Wyt ti'n hoffi bananas?

Jac: Nac ydw.

Arweinydd / Leader: Wyt ti'n hoffi afalau?

Jac: Ydw.

Arweinydd / Leader: Da iawn, dyma afal.



Sgwrs 2

Arweinydd / Leader: Prynhawn da Chloe, wyt ti isio snac?

Chloe: Ydw plŷs.

Arweinydd / Leader: Wyt ti isio brechdan?

Chloe: Ydw plŷs.

Arweinydd / Leader: Wyt ti isio llefrith?

Chloe: Nac ydw, dŵr plŷs.

Dril 3: *May I have ... ?*

Ga i oren. Cei / Na chei.

Ga i fefus?

Ga i rawnwin?

Ga i fanana?

Ga i greision?

Sgwrs 3

Arweinydd / Leader: Mae'n amser snac. Wyt ti eisiau oren, Saiqa?

Saiqa: Ydw plŷs.

Deena: Ga i fanana plŷs?

Arweinydd / Leader: Cei, dyma ti.

Aron: Ga i greision plŷs?

Arweinydd / Leader: Na chei. Wyt ti eisiau afal?

Aron: Ydw, diolch.

Dril 4: *Or*

Afal neu oren?

Grawnfwyd neu frechdan?

Llaeth / Llefrith neu ddŵr?



Dril 5: *Simple commands*

Unigol *Singular*

Golch**a** dy ddwylo.
Yf**a** dy ddiod.
Bwy**t**a dy ffrwythau.
Mwynh**a** dy snac.

Lluosog *Plural*

Golchw**ch** eich dwylo.
Yfw**ch** eich diod.
Bwytw**ch** eich ffrwythau.
Mwynhew**ch** eich snac.

Sgwrs 4

Arweinydd / Leader: Mae'n amser snac. Dych chi eisiau bwyd, bawb?

Yfwch eich diod. Wyt ti eisiau brechdan neu greision, Jacob?

Jacob: Ga i greision *salt and vinegar* plîs?

Arweinydd / Leader: Cei. Mwynha dy greision halen a finegr, Jacob!



Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd

Feminine Nouns

Cymraeg	Saesneg
brechdan/au	sandwich/es
diod/ydd	drink/s

Enwau Gwrywaidd

Masculine Nouns

Cymraeg	Saesneg
afal/au	apple/s
banana/s	banana/s
bwyd	food
dŵr	water
finegr	vinegar
ffrwyth/au	fruit/s
halen	salt
llaeth/llefrith	milk
oren/nau	orange/s
pinafal/au	pineapple/s
sudd	juice
tŷ bach	toilet

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
bwyta	to eat
golchi	to wash
mwynhau	to enjoy
yfed	to drink

Arall

Other

Cymraeg	Saesneg
creision	crisps
dwylo	hands



Gramadeg *Grammar*

Llaeth/llefrith *Milk*

Both these words mean 'milk'. '**Llefrith**' is commonly used in North Wales and '**llaeth**' is used in the South.

Gofyn am ganiatâd *Asking permission*

'**Ga i?**' is used to ask 'May I have ... ?'

Note the **treigl**ad *meddal* / *soft mutation* after the '**Ga i?**' e.g.

Ga i fanana? Ga i ddŵr?

The answers are:

Cei yes you may. **Na chei** no you may not.

Neu *Or*

'**Neu**' can be used to help children to choose between two objects, e.g. 'apple or banana?'. Note that this also causes a soft mutation, e.g.

Grawnfwyd neu dost?

Oren neu binafal?

Dyma *Here is*

Remember that '**dyma**' means 'here is', and causes a **treigl**ad *meddal* / *soft mutation*, e.g.

Dyma ddiod Dyma frechdan



UNED 5

Dril 1: Counting

sero / dim	0	
un	1	
dau	2	dwy
tri	3	tair
pedwar	4	pedair
pump	5	
chwech	6	
saith	7	
wyth	8	
naw	9	
deg	10	

Ymadroddion defnyddiol *Useful phrases*

Un, dau, tri ... bant â chi.

Un, dau, tri ... edrychwch arna i.

Tri, dau, un ... stopiwch!

Dw i'n cyfri i ddeg!

Dril 2: One

un un + t, c, p, b, d, g, m (TM)

un bachgen

un ferch

un llyfr

un gadair

un cyfrifiadur

un fasged



Dril 3: Two

dau + t, c, p, b, d, g, ll, m, rh (TM) **dwy** + t, c, p, b, d, g, ll, m, rh (TM)

dau afal	dwy oren
dau fachgen	dwy ferch
dau gi	dwy linell
dau blentyn	dwy gadair
dau ddyn	dwy bêl

Sgwrs 1

Arweinydd / Leader: Prynawn da bawb! Sut wyt ti heddiw Joseff?

Joseff: Dw i'n hapus.

Arweinydd / Leader: Da iawn! Dere i osod y cwpanau ar y bwrdd os gweli di'n dda.

Cyfra nhw. Mae eisiau deg.

Joseff: Iawn, dim problem.

Dril 4: Three and Four

tri + t, c, p (TLI)

tri **thîm**
tri **chyfrifiadur**
tri **phlentyn**

tair

tair **dawns**
tair **seren**
tair **pêl**

pedwar

pedwar **cwpan**
pedwar **plentyn**
pedwar **bachgen**

pedair

pedair **cadair**
pedair **llinell**
pedair **merch**



Dril 5: *How many are there?*

Sawl **cadair** sy yma?

diod

cwpan

afal

Un **gadair**

Dwy ddiod

Tri chwpan

Pedwar afal

Dril 6: *Can you count the ...?*

Wyt ti'n gallu cyfri'r

cwpanau?

afalau?

Dych chi'n gallu cyfri'r

Dach chi'n medru cyfri'r

ffrwythau?

cadeiriau?

Sgwrs 2

Arweinydd / Leader: Prynhawn da! Sut mae'r tywydd heddiw Cai?

Cai: Mae hi'n bwrw glaw.

Arweinydd / Leader: Ydy, Cai! Mae hi'n bwrw glaw. Dere i helpu gyda'r cadeiriau.

Sawl cadair sy yma?

Cai: Pedair.

Arweinydd / Leader: Pedair cadair. Sawl un sy mewn rhes?

Geraint: Ymm ... Saith?

Arweinydd / Leader: Gwych. Mae eisiau deg cadair prynhawn 'ma.



Dril 7: *How much is ...?*

Faint	ydy	dau	adio	pump?	Saith.
		tri		tri?	Chwech.
		pedwar		un?	Pump.
		tri	tynnu	un?	Dau.
		naw		chwech?	Tri.
		pedwar		pedwar?	Sero.



Geirfa

Vocabulary

Enwau Benywaidd

Feminine Nouns

Cymraeg	Saesneg
basged/i	basket/s
cadair/cadeiriau	chair/s
cath/cathod	cat/s
dawns	dance
merch/ed	girl/s
oren/nau	orange/s
pêl/peli	ball/s
rhes/i	row/s
seren/sêr	star/s

Enwau Gwrywaidd

Masculine Nouns

Cymraeg	Saesneg
afal/afalau	apple/s
bachgen/bechgyn	boy/s
car/ceir	car/s
ceffyl/ceffylau	horse/s
ci/cŵn	dog/s
cwpan/au	cup
cyfrifiadur/on	computer/s
dafad/defaid	sheep
dyn/dynion	man/men
ffrwyth/au	fruit/s
llinell/au	line/s
llyfr/au	book/s
plentyn/plant	child/ren
prynhawn/iau	afternoon/s
tîm/timau	team/s



Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
